| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Hydref 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb.

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo trosglwyddo £40mil o gyllid i gronfa wrth gefn System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig i gynorthwyo i ariannu'r prosiect yn 2016/17.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £0.476miliwn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol (£0.380 miliwn o danwariant ar ddiwedd Awst). Mae manylion pellach ynglŷn â'r rhesymau dros yr amrywiaethau a'r risgiau a thybiaethau sy'n sail iddynt wedi'u hamlinellu isod.

Roedd arbedion o £7.3m wedi'u cytuno fel rhan o'r gyllideb ac mae crynodeb o'r arbedion yn **Atodiad 2.** Mae £6.627m (91%) o'r arbedion eisoes wedi'u cyflawni, cynnydd o £1.221m o'r ffigwr o £5.406m (74%) a adroddwyd fis diwethaf. Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â chynnydd i gyflawni'r 9% sy'n weddill yn cael ei adrodd yn yr adroddiad monitro fis nesaf.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae manylion gwasanaethau sylweddol ar gael yn y paragraffau isod.

**Gwasanaethau Plant-** Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gorwario o £129mil (£126mil o orwariant fis diwethaf). Fel y nodwyd y mis diwethaf, gobeithir y gall y gwasanaeth ostwng y gorwariant amcanol presennol trwy reoli arbedion swyddi gwag a thrwy ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Lleoliad Arbennig. Fodd bynnag bydd y posibilrwydd o newidiadau pellach i leoliadau costau uchel yn parhau i fod yn risg.

**Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd –** Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £65mil (£50mil fis diwethaf) oherwydd gweithrediad cynnar arbedion y gyllideb a gytunwyd.

**Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol –** Mae risgiau'n ymwneud â Chludiant Ysgol, Parcio a'r gwaith a wnaed ar ran Asiantaeth y Cefnffyrdd yn parhau yn 2015/16. Mae'r camau rheoli canlynol wedi'u nodi:

- **Parcio –** Gwell rheoli perfformiad ar gyfer y staff gorfodi i gynyddu incwm PCN ac adolygiad o gostau gweithredol wedi'i weithredu y llynedd. Bydd prisiau parcio ar gyfer y meysydd parcio yn cael eu hadolygu fel rhan o broses y gyllideb.
- **Cludiant Ysgol –** Cafwyd cyfarfod grŵp tasg a gorffen i ystyried yr opsiynau i leihau'r duedd o orwario yn y maes hwn. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno polisi Cludiant Ysgol diwygiedig (yn weithredol o fis Medi 2015) a gobeithir y bydd hyn yn symud y gwasanaeth i adennill costau. Mae effaith y polisi newydd ar sefyllfa'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos ochr yn ochr ag effaith pwysau parhaus o ran demograffeg, cludiant i golegau a gofynion AAA. Mae manylion y contractau sydd ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 15/16 yn cael ei archwilio a bydd yn cael ei adrodd fis nesaf.
- **Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru-** Mae'r gwasanaeth wedi gostwng costau er mwyn cyfyngu effaith y gostyngiadau yn yr incwm ffioedd sy'n hysbys ar hyn o bryd, fodd bynnag mae risg o ostyngiadau pellach mewn incwm a lefelau gwaith.

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y camau uchod ynghyd â rheoli costau'n ofalus o fewn y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn caniatáu i'r Gwasanaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd i adennill costau eleni.

**Gwella Busnes a Moderneiddio –** Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth yn awr yn tanwario o £80mil yn bennaf oherwydd arbedion swyddi gwag mewn

perthynas â chyflawni effeithlonrwydd a gytunwyd fel rhan o arbedion Cam 4 yn 2016/17 yn gynnar. Argymhellir bod £40mil o'r tanwariant yn cael ei roi yng nghronfa wrth gefn System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig er mwyn cyfrannu at ariannu'r prosiect cyfalaf hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Ysgolion –** ar ddiwedd mis Medi y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £1.894 miliwn, sy'n ostyngiad o £1.644 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2014/15 (£3.538 miliwn). Mae adroddiadau monitro wedi'u cyflwyno i'r adran gyllid yn nodi'r risgiau a'r tybiaethau sydd wedi hysbysu'r rhagamcanion a chrynodebau'r cynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a /neu ddelio â diffygion ariannol a ragwelir. Rhagwelir y bydd y gyllideb heb ei dirprwyo yn gorwario o £68mil oherwydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ehangu Band Eang mewn Ysgolion. Gobeithir y bydd y gorwariant hwn yn cael ei fantoli yn erbyn gostyngiad mewn costau pensiwn hanesyddol, er ni fydd y ffigyrau hyn yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Corfforaethol –** Rhagamcanir y bydd tanwariant yn y Cyllidebau Corfforaethol o £0.454 miliwn ar hyn o bryd. Y dybiaeth ar hyn o bryd yw y bydd tanwariant corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth y Cynllun Corfforaethol. Bydd adolygiad o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau corfforaethol yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf a'i adrodd ym mis Tachwedd.

**Risgiau / Tybiaethau Gwasanaethau Eraill -** Er y rhagamcanir y bydd gwasanaethau eraill yn adennill arian ar hyn o bryd mae nifer o risgiau a thybiaethau fydd yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a'u hadrodd i'r Aelodau.

Ar ddechrau 2015/16 roedd cronfeydd arian parod y **Cynllun Corfforaethol** yn £17.413 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £4.231m.

**Diweddariad Terfynu Contract Cynllun Ariannu Preifat**

Fel yr adroddwyd i'r Cabinet ym mis Mai 2015, dan delerau Cytundeb Prosiect Cynllun Ariannu Preifat ar gyfer Neuadd y Sir, Neuadd y Dref Rhuthun a'r Storfa Gorfforaethol, cyflwynodd y Cyngor rybudd ffurfiol i derfynu'r cytundeb ar 14 Mai. Mae'r adeiladau eisoes ar fantolen y cyngor a thalodd y cyngor dâl blynyddol (a elwir yn dâl unedol) ar gyfer cynnal a chadw, gwasanaethau a chostau ariannu gyda chyfanswm o £2.6 miliwn y flwyddyn. Er mwyn arbed arian, penderfynodd y cyngor y dylid terfynu'r cytundeb Cynllun Ariannu Preifat bymtheg mlynedd yn gynnar- roedd y cytundeb yn dod i ben yn 2029. Dan delerau'r Cytundeb, arweiniodd y terfyniad at daliad iawndal i gyd-barti'r Cynllun Ariannu Preifat a chyflwynwyd cyfrif terfynu i'r cyngor ar 7 Medi. Roedd y cyfrifiad iawndal o fewn ffiniau'r rhagamcan a oedd yn rhan o'r achos busnes gwreiddiol i derfynu, ond roedd y cyngor yn anghytuno ag elfennau ohono a dros sawl wythnos llwyddwyd i drafod gostyngiad o £1.2 miliwn. Cytunwyd ar elfennau terfynol y swm iawndal ar 14 Hydref 2015 a arweiniodd

at gyfanswm iawndal o £16.9 miliwn. Yn ogystal â hyn, roedd ffioedd o £34 mil ar gyfer cefnogaeth arbenigol a chyngor cyfreithiol a threthi penodol.

Yn hanfodol, mae terfynu cytundeb Cynllun Ariannu Preifat yn darparu gwell gwerth am arian i'r Cyngor. Mae'n debyg i ad-dalu morgais neu gytundeb benthyciad yn gynnar- yr iawndal a delir mewn gwirionedd yw cyfandaliad yn lle'r taliadau a fyddai wedi cael eu gwneud dros weddill tymor y cytundeb. Y mater allweddol yw trwy dalu'r cyfandaliad hwn 'ymlaen llaw', mae'r cyngor wedi arbed ac osgoi costau cytundeb o £12miliwn o leiaf dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae hyn am fod y cyngor yn gallu ariannu costau terfynu a chynnal yr adeiladau am gost is na'r gost unedol. Mewn perthynas â'r gyllideb refeniw flynyddol, mae'r symudiad yn gwireddu arbedion ariannol o £300mil ar unwaith trwy ddisodli'r pris ariannu gyda chost benthyca is (fel y cytunwyd fel rhan o arbedion cyllidebol 2015/16) a bydd yn gymorth i gyfrannu at arbedion pellach fel rhan o adolygiad pellach o gyllideb ariannu cyfalaf y cyngor. Bydd hefyd yn darparu rheolaeth lawn o'r adeiladau i'r cyngor, a oedd â chyfyngiadau costus dan y Cytundeb Cynllun Ariannu Preifat, megis nifer yr unigolion y gellir eu lleoli yn yr adeilad, defnydd o'r maes parcio a threfniadau cynnal a chadw (costus) a gytunwyd. Felly, bydd mwy o arbedion cyllidebol yn cael eu cynhyrchu trwy reoli'r adeiladau'n effeithiol a chaffael gwasanaethau ac yswiriant gwell. Mae hefyd yn darparu'r cyfle i hwyluso effeithlonrwydd ehangach yn y dyfodol trwy gyfnerthu adeiladau gofod swyddfa'r cyngor ymhellach.

Bydd adroddiad manwl pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Tachwedd.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £47.4miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £17.2m. Hefyd yn Atodiad 2 mae'r gwariant arfaethedig o £26.6m ar y **Cynllun Corfforaethol**. Yn Atodiad 4 mae diweddariad ynglŷn â'r prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

**Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio y bydd cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £150mil o'i gymharu â chynnydd yn y gyllideb o £168mil. Rhagamcanir y bydd balansau CRT yn £2.002miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cyllideb gyfalaf o £7.8m yn cael ei ddyrannu ar draws atgyweirio a chynnal a chadw, atgyweiriadau a gynlluniwyd (£7.2miliwn), gwelliannau amgylcheddol (0.5miliwn) a phrosiect TG (£150 mil).

**Rheoli'r Trysorlys -** Ar ddiwedd mis Medi, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £189.442 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.9%. Roedd balansau buddsoddi yn £11.5miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.63%.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Cafodd asesiad o effaith manwl ei lunio yn rhan o'r broses gosod y gyllideb, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae'r broses wedi cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfarfodydd briffio’r Cabinet a briffio’r Cyngor. Roedd cynigion penodol yn cael eu hadolygu gan bwyllgorau craffu. Roedd deg gweithdy’r gyllideb wedi’u cynnal gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried cynigion y gyllideb.

Roedd ymarfer ymgysylltu â’r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb ac mae trafodaethau’n parhau rhwng rai o wasanaethau’r cyngor sir a rhai cynghorau Tref. Mae’r cyngor wedi ymgynghori â’r partneriaid trwy’r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd a chynhaliwyd trafodaethau penodol gyda’r Heddlu.

Fe ddiweddarwyd pob aelod staff ynghylch y broses gosod y gyllideb, ac fe ymgynghorwyd yn llawn â staff a fydd yn cael eu heffeithio, neu fe fydd ymgynghori’n digwydd â nhw, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor. Ymgynghorwyd â’r Undebau Llafur trwy’r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Mae’n bwysig bod gwasanaethau’n parhau i reoli cyllidebau’n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa’r gostyngiadau y mae’n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni’r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â’r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.